

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

### **COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 26ain o DACHWEDD 2020 - CYFARFOD RHITHIOL**

**Yn bresennol:** Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen  
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen,  
K.Richards, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

#### **1. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr W.L.Davies, E.R.Hughes, B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry,  
S.Sage, M.Sarnacki

#### **2. Datgan Buddiant Personol**

Dim.

#### **3. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)**

Dim.

#### **4. Grantiau i gynorthwyo Caernarfon**

Cynhaliwyd trafodaeth am y grantiau “FairShare” a “Repair and Reuse”.

Nodwyd:

- (1) Bod nifer o gynlluniau gwirfoddol wedi dod i fodolaeth yn ystod y cyfnod cloi hir yn gynharach eleni, a bod rhai o'r rheiny wedi goroesi'r cyfnod cloi, gan gynnwys Porthi Pawb, Porthi Plantos a'r cynllun FairShare (Tesco).
- (2) Bod cynlluniau newydd wedi dod i fodolaeth ers diwedd y cyfnod, gan gynnwys cynllun ail ddsbarthu dillad.
- (3) Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cafwyd gwybodaeth am ddau grant sylweddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru:
  - Cyfraniad wythnosol o fwyd gan FairShare (Tesco), fydd yn cael ei wneud gan Porthi Pawb;
  - Cronfa Atgyweirio ac Ailddefnyddio, sy'n ymwneud â chreu cynlluniau canol tref i hyrwyddo ail-ddefnyddio a thrwsio.

O ran Porthi Pawb, nododd y Clerc:

- (1) Ei fod wedi trafod gydag Iwan Evans, Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd, o ran yr angen i aelodau Ddatgan Diddordeb ai peidio. Nid

oedd angen gwneud hyn os yw'r drafodaeth ar Porthi Pawb er gwybodaeth (fel ag y mae o).

- (2) Os yw'r drafodaeth yn arwain at drafodaeth fydd yn golygu penderfyniad gweithredol ar Porthi Pawb, ni ddylai aelodau fod yn rhan o'r penderfyniad.
- (3) Yn gyffredinol, os yn helpu allan yn achlysurol, nad oedd angen i aelodau Ddatgan Diddordeb, ond byddai'n rhaid esbonio eu rôl / cysylltiad. Os oedd rôl ehangach er enghraifft bod yn aelod o'r Bwrdd neu gyffelyb, byddai'n rhaid i aelodau fynd allan o'r cyfarfod.

Nodwyd y Cynghorwyr E.Lovgreen, C.Larsen, D.L.Jones, R.Thomas ac A.Hopcyn eu bod wedi bod yn gwirfoddoli efo Porthi Pawb a / neu FairShare.

### **Grant Atgyweirio ac Ailddefnyddio**

O ran y cais am grant Atgyweirio ac Ailddefnyddio, y bwriad oedd creu hwb yng nghanol tref Caernarfon er mwyn:

- Sefydlu canolfan ar gyfer y gweithgareddau sydd eisoes yn mynd rhagddynt
- Cael canolfan ar gyfer gweithgareddau newydd gan gynnwys y ddarpariaeth FairShare (Tesco) estynedig – os bydd y cais am grant / darpariaeth ar gyfer hynny yn cael eu caniatáu
- Cael canolfan i weithgareddau ailddefnyddio yn y dref a fydd yn darparu bwyd, dillad, a chynhyrchion eraill (teganau ac ati o bosib) yn ogystal â chynnig hyfforddiant i ddefnyddwyr
- Darparu adnodd fydd ar gael i bawb sydd yn byw yn y dref a'r cyffiniau ac a fydd yn agored i syniadau sy'n dod o'r gymuned ac a fydd yn cynorthwyo i feithrin a datblygu sgiliau'r trigolion
- Darparu adnodd y gellir ei ddefnyddio gan fudiadau gwirfoddol addas eraill.

Nodwyd y dylai'r cais fod yn rhywbeth cynaliadwy a fyddai'n creu rhywbeth parhaol.

Nodwyd ymhellach y dylid gofyn wrth Gyngor Gwynedd os y gallent ddarparu trethi am ddim i'r adeilad o lle fyddai'r cynllun arfaethedig yn cymryd lle. Fodd bynnag rhagwelwyd y byddai hyn yn anodd gan fod yr awdurdod lleol yn gyfrifol am Wynedd gyfan, ac y byddai hyn hefyd yn dibynnu ar gyfansoddiad y corff dan sylw.

O ran y capasiti i redeg y grant Atgyweirio ac Ailddefnyddio, gofynnodd y Clerc os oedd y cais am grant yn cynnwys cyllid i gyflogi rhywun i redeg y cynllun. Gall staff y Cyngor Tref gynnig rôl goruchwylio ac i gynorthwyo mewn argyfwng yn unig, ond nad oedd capasiti i redeg pethau o ddydd i ddydd.

### **Penderfynwyd (unfrydol):**

- (1) **Bod y cais am y grant Atgyweirio ac Ailddefnyddio yn cael ei wneud yn enw Cyngor Tref Caernarfon (dim ond cynghorau lleol sydd â'r hawl i wneud cais).**

- (2) Os yw'r cais yn llwyddiannus, bod y Cyngor Tref yn edrych ar y posibilrwydd o greu cwmni hyd braich i bwrpas rhedeg a gweinyddu'r ganolfan newydd.**
- (3) Os nad ydi hynny'n bosib bod y Cyngor Tref yn goruchwyllo'r cynllun.**
- (4) Gofyn i Gyngor Gwynedd os y gallent ddarparu trethi am ddim i'r adeilad o lle fyddai'r cynllun arfaethedig yn cymryd lle.**

Gorffennodd y cyfarfod am 6.30 p.m.

**Arwyddwyd** .....

**Dyddiad** .....